# PAPURAU BUSNES

## 9 Tachwedd 2000

## Rhan 1 - Adran G

## Rhybuddion o Gynigion a Gwelliannau ar gyfer Dadleuon yn y Dyfodol

**Cynigion a gyflwynwyd ar 2 Tachwedd 2000**

Pwnc dadl fer

**NDM440 Helen Mary Jones (Llanelli);** Cyfrifiad a Hunaniaeth

**NDM441 Andrew Davies (Gorllewin Abertawe);**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

Yn nodi gyda chymeradwyaeth y Ddogfen Rhaglennu Sengl, y cytunodd Partneriaeth Dwyrain Cymru a'r Comisiwn Ewropeaidd arni, ar gyfer ardaloedd Amcan 2 a'r Rhaglen Drosiannol yn y Dwyrain, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Tachwedd 2000.

Yn galw ar y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd, gyda chytundeb y Bartneriaeth, i ychwanegu unrhyw destun ychwanegol neu wneud unrhyw newidiadau testunol yn ôl yr angen, i fodloni'r gofynion technegol sydd eu hangen i sicrhau bod y ddogfen yn cael cymeradwyaeth ffurfiol y Comisiwn Ewropeaidd cyn gynted â phosibl.

**NDM442 Andrew Davies (Gorllewin Abertawe);**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion (Cylch Gwaith) (Cymru) 2000 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Hydref 2000.

**NDM443 Andrew Davies (Gorllewin Abertawe);**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

(a) yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau ar y Gorchymyn drafft, Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion (Cylch Gwaith) (Cymru) 2000 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Hydref 2000.

(b) yn cymeradwyo gwneud y Gorchymyn yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Hydref 2000.

**Gwelliannau a Gyflwynwyd ar 6 Tachwedd 2000**

Cynnig bod y Cynulliad yn penderfynu mabwysiadu'r gwelliannau canlynol i gynigion:

**NDM441**

**1. Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);**

Ychwanegu ar ddiwedd y cynnig:

Yn mynegi pryder y bydd gweithredu'r rhaglen Amcan 2 yn cael ei danseilio gan raglenni eraill y Gronfa Strwythurol ac yn galw am i'r holl bartneriaid roi cymorth angenrheidiol, yn enwedig ar gyfer y sector preifat.

**2. Phil Williams (Dwyrain De Cymru);**

**Ychwanegu ar ddiwedd y cynnig fel pwynt bwled newydd**

- Yn cymeradwyo'r gydnabyddiaeth yn y Ddogfen Raglennu Sengl y gallai twf economaidd heb ei gynllunio gael effaith amgylcheddol negyddol, ac yn annog ymrwymiad digonol i ddatblygiadau fel: cynlluniau ynni adnewyddadwy cynaliadwy lleol; cyfathrebu band eang; ailgylchu gwastraff a hwyluso gallu'r cyhoedd i fanteisio ar drafnidiaeth gyhoeddus, i sicrhau cyfuniad o dwf economaidd cynaliadwy ac effaith amgylcheddol gadarnhaol.

**3. Phil Williams (Dwyrain De Cymru);**

**Ychwanegu ar ddiwedd y cynnig fel pwynt bwled newydd**

- Yn galw ar y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd i weithredu ar gais y Comisiwn Ewropeaidd, fel a gynhwysir yn ei ymateb i'r Dogfennau Rhaglennu Sengl drafft, i fabwysiadu targedau penodol ar gyfer TGaCh;

**4. Phil Williams (Dwyrain De Cymru);**

**Ychwanegu ar ddiwedd y cynnig fel pwynt bwled newydd**

- Yn annog Llywodraeth Glymblaid Cymru i sefydlu Partneriaeth Genedlaethol i gyd-drefnu'r polisïau gwledig a gynhwysir ym Mlaenoriaeth 5 o'r Rhaglen Amcan 1, Blaenoriaeth 2 o Raglen Amcan 2; y Cynllun Datblygu Gwledig a Menter Gymunedol

LEADER+;

**5. Phil Williams (Dwyrain De Cymru);**

**Ychwanegu ar ddiwedd y cynnig fel pwynt bwled newydd**

- Yn cymeradwyo'r bwriad i rannu cyfrifoldeb rhwng Cynlluniau Gweithredu Rhanbarthol a Lleol yn y Rhaglen Amcan 2 ac yn gresynu'r methiant i sicrhau'r cyfryw raniad clir ar draws yr ystod gyfan o'r Rhaglenni Cronfa Strwythurol Ewropeaidd yng Nghymru;

**6. Phil Williams (Dwyrain De Cymru);**

**Ychwanegu ar ddiwedd y cynnig fel pwynt bwled newydd**

Yn cydnabod bod y cyllid ychwanegol a neilltuwyd yn yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant i gwmpasu Grantiau Ewropeaidd ar gyfer y Cronfeydd Strwythurol a'r Mentrau Cymunedol yn golygu cynnydd graddol yn y gwir wariant ac yn annog Llywodraeth Glymblaid Cymru i bwyso ar y Trysorlys i gadarnhau petai'r gwariant ar brosiectau gwerth chweil yn cynyddu'n gynt na'r hyn a ragwelwyd yn yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant, y bydd cyllid ychwanegol yn cael ei neilltuo.